Rhifyn arbennig
Eisteddfod
Caerdydd
2018

RhAG OLWG

Rhifyn 37, Haf 2018
Cyhoeddir RhAGOLWG gan Rhieni dros Addysg Gymraeg,
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RD
Ffôn 07912175403 Ebost ceri@rhag.cymru
Gwefan www.rhag.cymru

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

# Prifddinas addysg

AR ACHLYSUR ymweliad diwethaf yr Eisteddfod â Chaerdydd roedd 14 ysgol gynradd Gymraeg ar agor ar 15 safle a 2 ysgol uwchradd Gymraeg. Cyfanswm mynediad plant newydd i'r system oedd 555 (14.8% o'r cohort cyfan Cymraeg a Saesneg).

Yn y 10 mlynedd ers 2008 mae nifer yr ysgolion cynradd wedi codi i 17 trwy agor dwy yn 2009 (Glan Ceubal a Penygroes) ac un yn 2016 sef Hamadryad (hon fel ysgol dwy ffrwd). Ar ben hyn mae ysgolion eraill wedi'u helaethu trwy agor ffrydiau ychwanegol yn Nhreganna a'r Wern ill dwy nawr yn ysgolion tair ffrwd, ac yng Nglan Morfa i ddwy ffrwd. Cyfanswm ffrydiau'r ysgolion cynradd yw 28 yn darparu lle i 840 plentyn. Erbyn 2022 mae sicrwydd o ychwanegu dwy ffrwd arall trwy helaethu ysgolion Nant Caerau a Penypil i fod yn ysgolion dwy ffrwd. Mae cais gerbron y Gweinidog Addysg Gymraeg i gael arian cyfalaf i ychwanegu ffrwd arall at yr 8 sydd ar gael yng ngogledd canolog y ddinas lle mae'r 5 ysgol yn orlawn (Y Wern, Mynydd Bychan. Melin Gruffydd, Glan Ceubal a Pencae).

Mae gennym gymaint â thair ysgol uwchradd bellach, wedi agor Ysgol Bro Edern yn 2012, sydd rhyngddynt yn cynnig lle i 600 disgybl y flwyddyn. Eleni bydd 557 yn cael eu derbyn; yn 2019 disgwylir i 610-615 ddechrau addysg uwchradd, gan gynnwys gynnwys nifer sydd yn cychwyn ar addysg Gymraeg ar ôl mynychu ysgolion cynradd Saesneg. Mae'r sir yn gweithio ar gynlluniau naill ai i helaethu'r ysgolion



Adeilad newydd sbon Ysgol Glan Morfa

uwchradd presennol i fod yn 10 ffrwd yr un (yn lle'r 8, 6 a 6 presennol) neu i agor pedwaredd ysgol uwchradd Gymraeg.

Cyrhaeddodd y nifer blynyddol yn ceisio addysg Gymraeg ei uchafbwynt yn 2016 wrth i 747 ddechrau (16.9% o'r cyfan). Ni fu'r nifer absoliwt mor uchel yn 2017 ac dyw e ddim yn debyg o fod mor uchel eleni chwaith, i raddau oherwydd y cwymp cyffredinol mewn disgyblion. Mewn gwirionedd, bu i ganran y plant yn ceisio addysg Gymraeg ddal i gynyddu yn 2017 gan gyrraedd 17.1% neu ymhell dros 1 plentyn ym mhob chwech.

Newyddion da yw bod adeilad newydd Glan Morfa yn barod ac wedi'i drosglwyddo i staff yr ysgol fydd yn derbyn plant yno fis Medi. Mae adeilad newydd Hamadryad bron yn barod a bydd yn cael ei drosglwyddo fis Tachwedd ac yn derbyn plant fis Ionawr . Felly o'r 17 ysgol gynradd bydd 6 yn bodoli mewn adeiladau newydd sbon wedi'u codi yn yr 20 mlynedd diwethaf tra bod 2 arall mewn adeiladau wedi'u adnewyddu yn yr un cyfnod, Un ysgol yn unig sydd mewn adeilad yn dyddio yn ôl i oes Fictoria, sefyllfa bur wahanol i dynged Ysgol Bryntaf rhwng 1949 a 1981, a symudodd o'r naill hen adeilad i'r llall - tair gwaith i gyd.

*Michael Jones*

# Buddugoliaeth yn erbyn tâl am gludiant

MAE RhAG wedi croesawu penderfyniad cabinet Cyngor Sir y Fflint i beidio â bwrw ymlaen gyda chynnig i ddiddymu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Sir.

Daeth y penderfyniada wedi i'r mudiad lythyru ag arweinydd y cyngor ac holl aelodau'r cabinet i fynegi pryderon difrifol am oblygiadau unrhyw gamau o'r fath.

Meddai Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG, "Mae RhAG yn croesawu'r newyddion ac yn llongyfarch cabinet Cyngor Sir y Fflint ar benderfyniad doeth a synhwyrol. Mae'r canlyniad hwn yn gydnabyddiaeth y byddai wedi bod yn gam gwag i fwrw ymlaen gyda chynnig a oedd yn gwrthdaro'n glir gyda deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ac yn gwbl andwyol i'r Gymraeg ym mhob ffordd posibl."

Cydnabyddir cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cyhoeddiad hwn ac i'r wefan www.rhag.cymru Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y Llinell Gyswllt: 0845 6076070 (cyfradd galwadau lleol) Llun-Gwener 10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

#PethauBychain
#Cymraeg2050

Dilynwch ni ar:

© Hawlfraint Rhieni dros Addysg Gymraeg 2018. Rhif elusen gofrestredig: 1153403

# Gwneud yn iawn am yr arafwch

MAE ARIAN y Llywodraeth yn yr ail rownd o gyllido ysgolion wedi denu sawl sir i wneud yn iawn am eu harafwch eu hunain wrth ymateb i dwf addysg Gymraeg.

Bydd yr arian, sef arian cyfalaf 'Band B', yn ariannu hanner cost rhoi adeiladau newydd i ysgolion neu godi ysgolion newydd.

Mae Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg, wedi dweud y caiff addysg Gymraeg flaenoriaeth wrth i siroedd wneud cais am arian Band B. O dan bwysau ganddi hi, mae sawl sir wedi gwella eu cynlluniau datblygu addysg Gymraeg.

Wedi dweud hynny, gwneud yn iawn am arafwch y gorffennol mae sawl sir yn eu ceisiadau am gyllid Band B.

Nid yw Castell-nedd Port Talbot wedi codi un ysgol Gymraeg newydd yn ystod eu bodolaeth. Mae Ysgol Gymraeg Castell-nedd wedi bod yn orlawn ers blynyddoedd. Y cynnig yn awr yw rhoi mwy o gabanau i'r ysgol honno yn hytrach na chodi ysgol newydd yn y cyffiniau. Ond mae gobaith cael ysgol Gymraeg newydd yn Llandarsi. Bydd angen gwylio i sicrhau na fydd CNPT yn tynnu'n ôl o hyn.

Mae Abertawe am gael cyllid a fydd ymhen amser yn cynyddu'r nifer mewn addysg Gymraeg gan 1,000. Caiff ysgol newydd ei chodi, gyda lle i 60 bob blwyddyn, i Ysgol Tan-y-Lan, sydd â lle i 15 yn unig ond sy'n derbyn hyd at 30 ar hyn o bryd. Mae Pontybrenin yn orlawn, a'r gobaith yw cael lle arall i'r dosbarth meithrin. Mae mawr angen ysgol arall yn ardal Penllergaer. Caiff ysgol Tirdeunaw safle newydd gan dderbyn 75 o blant bob blwyddyn. Gobeithir cael lle ychwanegol i Ysgol Login Fach

Mae Blaenau Gwent am gael arian i gychwyn egin ysgol cyfrwng Cymraeg yn Nhredegar/Cwm Sirhywi.

Mae Caerdydd am sefydlu 7 ffrwd ychwanegol.

Mae Caerffili am adleoli Ysgol y Lawnt, adnewyddu Ysgol Tynywern i greu ysgol Gymraeg newydd, cael adeilad newydd ar gyfer Ysgol Cwm Gwyddon ac adleoli Ysgol Gilfach Fargoed

Mae gobaith y bydd Merthyr yn codi ysgol Gymraeg yn y Gurnos

Mae Mynwy am adleoli Ysgol y Fenni. Mwy dadleuol yw cael ffrwd Gymraeg yn ysgol uwchradd Harri VIII. Ceir awgrym am ysgol Gymraeg i Drefynwy

> Mae Eluned Morgan, gweinidog y Gymraeg, wedi dweud y caiff addysg Gymraeg flaenoriaeth wrth i siroedd wneud cais am arian Band B.

Mae gan Rhondda Cynon Taf 19 prosiect i estyn ysgolion a sefydlu 2 ysgol Gymraeg newydd. Bu oedi hir yn y sir hon tan hyn

Bwriad Wrecsam yw sefydlu ysgol i 210 yn ardal Boras erbyn Medi 2019.

Mae RhAG yn croesawu'r datblygiadau hyn, ac yn edrych ymlaen at weld trefn newydd o Gynlluniau Addysg Gymraeg a fydd yn rhoi mwy o bosibilrwydd i siroedd ddatblygu ysgolion Cymraeg yn y dyfodol. Cynlluniau 3 blynedd sydd ar hyn o bryd. Mae angen i'r cynlluniau newydd fod yn rhai 5-10 mlynedd, gyda chyswllt amlwg ag arian cyfalaf y Llywodraeth.

*Heini Gruffudd*


## CYMRAEG YW IAITH Y DDINAS: DYSGU A DATBLYGU

**Cyfarfod Cyhoeddus Rhieni dros Addysg Gymraeg Eisteddfod Caerdydd 2018**

**Cadeirydd:** Ani Saunders

**Siaradwyr:** Emily Pemberton, Dominic Francis, Siôn Jobbins

**Amser:** Dydd Mawrth, 7 Awst 2018, 11.45yb

**Lleoliad:** Pabell y Cymdeithasau 3

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

CYMRAEG

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

# Cyfle euraidd i addysg

Mae ymweliad Eisteddfod yr Urdd i Lanelwedd yn gynharach eleni yn cynnig cyfle euraidd i adael gwaddol parhaol ar gyfer ffyniant addysg Gymraeg ym Mhowys.

Dyma yw galwad RhAG wrth bwyso ar y Cyngor i gydio yn y cyfle i ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r Sir.

Mae arwyddion cadarnhaol eisoes ar droed gydag agor Ysgol Gynradd Y Trallwng Medi 2017 yn garreg filltir hanesyddol a llwyddiant digamsyniol Ysgol Dafydd Llwyd, yn y Drenewydd, yn brawf o'r galw cynyddol.

Meddai Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG, "Mae angen dybryd i ymestyn y Gymraeg i bob rhan o'r sir. Mae gormod o ardaloedd heb addysg Gymraeg o gwbwl ac mae angen unioni'r cam hwnnw.

"Bydd ehangu'r ddarpariaeth, trwy sefydlu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn torri'r cylch caeth presennol ac yn gweddnewid y tirlun o safbwynt addysg Gymraeg yn y sir, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru i gryfhau dwyieithrwydd a chyfrannu at y nod o gynyddu nifer y siaradwyr i filiwn erbyn 2050.

"Mawr obeithiwn y gwelwn sawl datblygiad pwysig yn dwyn ffrwyth dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys agor ysgol gynradd Gymraeg yn ardal Llandrindod, symud Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth ar hyd y continwwm ieithyddol trwy gael gwared ar y ffrwd cyfrwng Saesneg a sefydlu ysgol uwchradd 2A yng ngogledd y sir.

"Mae'r galw a'r angen yn glir: rhaid cymryd camau pendant i sefydlu'r ddarpariaeth fydd yn bodloni hynny.

"Galwn felly ar y Cyngor i gofleidio gweledigaeth bellgyrhaeddol ar gyfer twf Addysg Gymraeg ac ar gyfer dyfodol hirdymor yr iaith Gymraeg yn y Sir."

# Datblygwyr yn anwybyddu'r Gymraeg

MAE ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu hanwybyddu gan ddatblygwyr wrth iddynt farchnata ystadau tai newydd ledled y wlad.

Dyma yw canfyddiad mudiad Rhieni dros Addysg Gymraeg wrth feirniadu cwmnîau adeiladu sy'n rhestru ysgolion cyfrwng Saesneg ar eu gwefannau ond heb unrhyw gyfeiriad at ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r mudiad wedi adnabod methiant i wneud hynny gan gwmnîau Bellway, Redrow, Persimmon a Taylor Wimpey, sy'n hyrwyddo tai newydd yn RhCT, Bro Morgannwg, Torfaen a Chasnewydd ymysg ardaloedd eraill.

Meddai Mark Bowen ar ran RhAG Bro Morgannwg,

"Rydw i'n cofio ymweld â swyddfa Taylor Wimpey yn y Rhws i ofyn am fwy o fanylion am y datblygiad yno. Yn ôl eu taflen, does dim opsiwn ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg i deuluoedd, er gwaetha'r ffaith bod y datblygiad newydd yn nalgylch Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr. Yn ôl gwefan Redrow Homes, y dewis cyfrwng Cymraeg agosaf i deuluoedd sy'n symud i fyw i ddatblygiad yn ardal y Bontfaen yw Caerdydd! Ac nid yw Bellway ychwaith yn ymwybodol o ddalgylch ysgolion cyfrwng Cymraeg i deuluoedd sy'n symud i dai newydd yn ardal Gwenfô a Chroes Cwrlwys.

Dywedodd Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG, "Does dim modd cyfiawnhau difaterwch y cwmnîau hyn at y Gymraeg. Nid yw'n dderbyniol rhoi camargaff mai addysg cyfrwng Saesneg yw'r unig ddewis sydd ar gael i deuluoedd sy'n ymgartrefu yn yr ystadau tai newydd hyn, Mae'n anorfod bod canran uchel yn mewnfudo i Gymru, a mwy na thebyg, yn gwbl anymwybodol bod ganddynt ddewis arall o ran addysg eu plant. Mae'r cwmniau dan sylw yn esgeuluso eu cyfrifoldebau ac yn amlwg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

"Mae hyn yn codi cwestiynau mawr o ran pa gyfarwyddyd y mae llywodraeth leol a chanol yn ei roi i ddatblygwyr o ran hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Pan gaiff addysg ei hystyried yng nghyd-destun cynllunio ystadau tai newydd, mae angen i awdurdodau lleol roi ystyriaethau ieithyddol yn ganolog yn y cynlluniau hynny. Dylent sicrhau bod datblygu trefol yn rhoi cyfle i gynyddu addysg Gymraeg.

"Rydym yn galw ar y cwmnîau hyn felly i edrych yn fanwl ar eu polisîau mewn perthynas â'r Gymraeg ac i ddechrau hynny trwy nodi ysgolion cyfrwng Cymraeg ar eu gwefannau. Wrth gynllunio at y miliwn, mae angen i'r Llywodraeth hefyd gyflwyno canllawiau sy'n caniatáu i rieni sy'n ymgartrefu yn yr ardaloedd hyn ddewis addysg Gymraeg yn hwylus."

# Rhaid i'r Llywodraeth eghangu'r rhaglen cyllid cyfalaf

MAE angen i Lywodraeth Cymru ehangu'n sylweddol eu rhaglen cyllid cyfalaf i fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Dyma yw galwad RhAG, wedi i'r Aelod Cynulliad Llyr Gruffydd gyflwyno cwestiwn ar ran y mudiad i Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a ddatgelodd fod awdurdodau lleol wedi cyflwyno ceisiadau sydd dair gwaith yn uwch na'r swm sydd ar gael.

Ar 8 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £30 miliwn o gyllid cyfalaf, yn benodol i gefnogi'r buddsoddiad mewn addysg Gymraeg ledled Cymru.

Nod y cyllid ychwanegol hwn yw sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i fwy o ddisgyblion ledled Cymru, a thrwy hynny gyfrannu at y targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd disgwyl i awdurdodau lleol feddwl yn greadigol am sut i ddefnyddio'r cyllid i wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Mae gwerth £103m o geisiadau wedi dod i law oddi wrth bob un o'r 22 awdurdod lleol, sy'n amrywio o £0.64m gan Ynys Môn i £14.03m gan CNPT.

Mae disgwyl penderfyniad am y ceisiadau yn yr hydref.

Meddai Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG,"Dymuna RhAG longyfarch y siroedd am ymateb yn gadarnhaol i'r cyfle i ymgeisio am gyllid i gynyddu'r cyfleoedd i fwy o ddisgyblion dderbyn addysg Gymraeg.


"Mae'n debyg bod yr ymateb wedi bod mor uchel oherwydd nad oedd rhaid canfod arian cyfatebol, rhwystr sydd wedi llesteirio sawl sir rhag gweithredu cyn hyn.

"Mae'r galw yn gwbl ddiamheuol, ac yn profi bod yr ewyllys i weithredu yn bodoli os oes digon o gefnogaeth ar gael.

"Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n rhaid rhoi rhaglen o dwf cyflym ar waith ac mae sicrhau cyllid digonol i wireddu hynny yn gwbl allweddol.

"Galwn ar y Llywodraeth felly i gynyddu'r cyllid sydd ar gael er mwyn galluogi'r siroedd i wireddu'r holl brosiectau cyffrous sydd wedi eu cyflwyno."

# Ysgolion Cymraeg y Brif-ddinas WM schools in the Capital




© 2018 RhAG

RhAGOLWG

Issue 37, Summer 2018
RhAGOLWG is published by Rhieni dros Addysg Gymraeg,
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Cardiff Gate Business Park, Cardiff CF23 8RD
Tel 07912175403 Email ceri@rhag.cymru
Website www.rhag.cymru

Special issue Eisteddfod Cardiff 2018

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

# Education capital

ON THE OCCASION OF the last visit of the Eisteddfod to Cardiff there were 14 Welsh medium primary schools open on 15 sites and two secondaries. The total entry capacity was 555 (14.8% of the entire Welsh and English cohort).

In the 10 years since 2008 the number of primary schools has risen to 17 with the opening of two in 2009 (Glan Ceubal and Penyroes) and one in 2016 (Hamadryad - as two-form entry). On top of this other schools have expanded opening an extra 1FE at Treganna and Y Wern, these two both now three-form entry, and in Glan Morfa which is now two-form. The total number of primary school streams is 28, providing places for 840. By 2022 it is certain there will be a further two forms added at Nant Caerau and Penypil each becoming two-form entry. There is an application before the Welsh Education Minister for capital money to add another form to the eight currently available in the centre north of the city where the five schools are at capacity (Y Wern, Mynydd Bychan, Melin Gruffydd, Glan Ceubal and Pencae).

We now have as many as three secondary schools, following the opening of Ysgol Bro Edern in 2012, which between them offer places to 600 pupils a year. This year, 557 will be received; in 2019 it is expected 610-615 will enter secondary level, including a number who are starting Welsh Medium education for the first time after attending English medium primary schools. The county is working on plans either to expand the current secondary schools to 10 streams each or to open a fourth secondary school.




The new building for Ysgol Glan Morfa

The annual number seeking Welsh medium education reached its highpoint in 2016 with 747 starting (16.9% of the total). The absolute number was not as high as in 2017 and it is not likely to be as high this year either, partly because of the general fall in pupils. In actual fact, the percentage of children seeking Welsh medium education continued to grow in 2017 reaching 17.1% or well over one in every six children.

The good news is that the new building at Glan Morfa is ready and has been handed over to the school staff who will be taking in children from this September. The new building for Hamadryad is almost ready and will be handed over in November to received children in January.

So out of the 17 primary schools six will be in new buildings built over the last 20 years whilst two others will be in buildings renovated during the same period. Only one school is in a building dating back to the Victorian age, a situation quite different to that of Ysgol Bryntaf between 1949 and 1981 which had to move from one old building to the next - three times in all.

*Michael Jones*

# Victory against bid to charge for travel

RhAG has welcomed the decision taken today by Flintshire County Council's cabinet not to proceed with a proposal to abolish free transport for pupils who attend Welsh medium schools in the county.

This comes after the organisation wrote to the Leader of the Council and all cabinet members to express serious concerns about the implications of any such action.

Wyn Williams, National Chair of RhAG said, "RhAG welcomes the news and congratulates Flintshire County Council's cabinet on a prudent and sensible decision. Today's outcome is an acknowledgement that taking forward this proposal would have been a retrograde step, as it not only against national policy and legislation, but also detrimental to the Welsh language in every possible way."

We are grateful to the Welsh Government for supporting this publication and www.rhag.cymru For further information about any aspect of the Welsh language, please ring the Link Line to Welsh: 0845 6076070 (local call rates ) Mon-Fri 10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

#PethauBychain
#Cymraeg2050

Follow us on:

© Copyright Rhieni dros Addysg Gymraeg 2018. Registered Charity Number: 1153403

# Making amends for a slow start

GOVERNMENT funding in the second round of school funding has attracted several councils to make amends for dragging their feet in response to the growth of Welsh-medium education.

The money, which is 'Band B' capital funding, will fund half the cost of giving existing schools new buildings or establishing new schools.

Minister for the Welsh language, Eluned Morgan, has said that Welsh medium education will be prioritised as councils apply for Band B money. Under pressure from her, several LAs have now improved their Welsh education development plans.

Having said that, a number of LAs are only making right their failure to act in the past, with their bids for Band B funding.

Neath Port Talbot has not created a single new Welsh-medium school during its existence. Ysgol Gymraeg Castell-nedd has been overcrowded for years. The proposal now is to give the school additional demountable buildings instead of opening a new school in the area. But there is hope of a new Welsh-medium school in Llandarcy. We will need to ensure that NPT does not renege on this commitment.

Swansea wants funding that will eventually increase the numbers in Welsh-medium education by 1,000. A new school, with places for 60 pupils per year, will be built for Ysgol Tan-y-Lan, which has only 15 places but currently accepts up to 30. Pontybrenin is bursting at the seams, and it is hoped to have additional space for the nursery class. There is a great need for another school in the Penllergaer area. Ysgol Tirdeunaw will be given a new site which will be able to accept 75 children each year. It is also hoped that more classroom space will be secured for Ysgol Login Fach.

Blaenau Gwent wants funding to establish a Welsh medium seeding school in Tredegar / Cwm Sirhywi;.

Cardiff wants to establish up 7 additional streams (30 pupils).

Caerphilly wants to relocate Ysgol Y Lawnt, refurbish Tynywern School to create a new Welsh medium school, a new building is promised for Ysgol Cwm Gwyddon and Ysgol Gilfach Fargoed will be relocated;.

It is hoped that Merthyr will establish a new Welsh-medium school in the Gurnos.

Monmouthshire wants to relocate Ysgol Gymraeg Y Fenni. A more controversial proposal is to have a Welsh medium stream at the King Henry VIII secondary school.

> Eluned Morgan, Minister for the Welsh Language, has said that Welsh medium education will be given priority in applications for Band B funding.

Rhondda Cynon Taff has 19 projects to extend schools and establish 2 new Welsh-medium schools. New developments in this county are long overdue.

Wrexham intends to open a new school for 210 pupils in the Borras area by September 2019.

*Heini Gruffudd*

**CYMRAEG YW IAITH Y DDINAS: DYSGU A DATBLYGU**

Cyfarfod Cyhoeddus Rhieni dros Addysg Gymraeg Eisteddfod Caerdydd 2018

**Cadeirydd:** Ani Saunders

**Siaradwyr:** Emily Pemberton, Dominic Francis, Siôn Jobbins

**Amser:** Dydd Mawrth, 7 Awst 2018, 11.45yb

**Lleoliad:** Pabell y Cymdeithasau 3

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

CYMRAEG

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

# Golden opportunity

THE Urdd Eisteddfod visit to Llanelwedd this year offered a golden opportunity to leave a lasting legacy for the Welsh language in Powys, according to RhAG. RhAG has urged the council to seize the opportunity to expand the provision of Welsh-medium education in the county.

Positive signs are already underway with the opening of Ysgol Gymraeg y Trallwng in Welshpool last September and the tremendous success of Ysgol Dafydd Llwyd, in Newtown, an undoubted sign of increasing demand.

Wyn Williams, National Chair of RhAG, “There is a pressing need to extend the Welsh language to all parts of the county. There are too many areas still without local, accessible Welsh-medium education provison and this needs to be rectified.

“Expanding the provision, by establishing more Welsh language schools, will transform the landscape in terms of Welsh-medium education in the county, in line with the Welsh Government’s expectations to strengthen bilingualism and will make an important contribution to the aim of increasing the number of speakers to a million by 2050.

“We hope that we will see several significant developments over the next few years, including the opening of a Welsh-medium primary school in the Llandrindod Wells area, moving Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth along the language continuum by removing the English medium stream and establishing a 2A Welsh medium secondary school in the north of the county.

“The demand and need is clear: concrete steps must now be taken to establish the provision. We therefore call on the Council to embrace a far reaching vision for the growth of Welsh medium education for the long-term future of the Welsh language in the County.”

# Developers ignore Welsh medium

WELSH MEDIUM schools are being ignored by developers in their marketing campaigns for new housing estates across the country. RhAG has criticised a number of construction companies that list English-medium schools on their websites but make no reference to Welsh-medium schools.

The organisation has identified a failure to do so by Bellway, Redrow, Persimmon and Taylor Wimpey, which promote new housing developments in RCT, the Vale of Glamorgan, Torfaen and Newport among other areas.

Mark Bowen on behalf of RhAG in the Vale of Glamorgan said, “I remember visiting the Taylor Wimpey office in Rhoose and asking for more information about the development and the local schools. According to their leaflet, there is no Welsh medium option for families, despite the school being in the catchment area for Ysgol Dewi Sant in Llantwit Major. According to Redrow Homes, on their website, there is a Welsh medium option available to Cowbridge families, but in Cardiff! And Bellway are not aware of a Welsh medium school catchment for Wenvoe and Culverhouse Cross families.”

Wyn Williams, National Chair of RhAG added, “The indifference shown by these companies toward the Welsh language cannot be justified. It is not acceptable to give a false impression that English-medium education is the only option available for families settling down in these new housing estates, when that is simply not the case. It is inevitable that a high percentage will be moving in to Wales, and probably completely unaware that they have an alternative choice in terms of their children’s education. The companies involved are neglecting their responsibilities and clearly treating the Welsh language less favourably.

“This raises a number of questions about what directives local and central government is giving developers in terms of promoting the Welsh language as part of Local Development Plans. When education is considered in the context of the planning of new housing estates, local authorities should make linguistic considerations central to those plans. They should ensure that urban development provides an opportunity to increase Welsh-medium education.

“We call on these companies, therefore, to look closely at their policies in relation to the Welsh language and to start this by identifying and listing Welsh-medium schools on their websites. As part of the work needed to reach a million speakers, the Government also needs to introduce guidance that makes it easy for parents who settle in these areas to choose Welsh-medium education.”

# Government must extend capital budget scheme

THE WELSH Government must increase substantially its capital budget programme to invest in Welsh medium schools.

The call was made after Assembly Member Llyr Gruffydd posed a question on behalf of RhAG to Kirsty Williams, Cabinet Secretary for Education, who disclosed that local authorities have submitted applications that are three times greater than the sum available.

On 8th February, the Welsh  that local authorities have submitted applications that are three times greater than the sum available.

On 8th February, the Welsh Government announced £30 million of capital funds specifically for supporting investment in Welsh medium education throughout Wales.

The aim of this additional budget is to ensure that Welsh medium education is available to more pupils throughout Wales, and thereby contribute to the target of a million Welsh speakers by 2050. Local authorities were expected to think creatively about how to use the budged to improve the Welsh medium provision.

There were £103m worth of applications which were made by each one of the 22 local authorities, ranging from £0.64m by Ynys Môn up to £14.03 by Neath Port Talbot.

A decision on the applications is expected in the autumn.

Wyn Williams, national RhAG chairman, said, “RhAG would like to congratulate the counties for responding positively to the opportunity to apply for the budget to increase the chances fror more pupils to receive Welsh medium education.

“It appears the response has been so high because there no need to find matched funding, an obstacle that has held back many counties from acting up to now.

“The demand is unmistaktable, and proves that the will to act exists if enough support can be made available.

“If the Government is serious about creating a million Welsh speakers by 2050, it is vital they put a rapid growth plan into action and ensure an adequate budget to make that happen.

“We call on the Government therefore to increase the budget available in order to enable the counties to realise all the exciting schemes proposed.”